

---

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

---

|                            |  |
|----------------------------|--|
| <b>Enw / Name:</b>         | Owen Evans   |
| <b>Rôl / Role:</b>         | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru                    |
| <b>E-bost / Email:</b>     | <a href="mailto:Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru">Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru</a> |
| <b>Rhif Ffôn / Tel No:</b> | 029 2044 6446  |
| <hr/>                      |  |
| <b>Dyddiad / Date:</b>     | 20.10.22   |
| <b>Pwnc / Subject:</b>     | <b>Datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol</b>          |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## Ymateb

### Cyflwyniad

Mae Estyn yn credu bod y weledigaeth o ran presgripsiynu cymdeithasol, fel y'i hamlinellir, yn briodol. Fodd bynnag, prin yw'r cyfeiriad a wneir at y modd y mae addysg yn grymuso pobl o fagu hyder trwodd i ennill cymwysterau i newid neu wella llwybr unigolyn mewn bywyd trwyddynt.

Mae hyn yn cynnwys gwaith dysgu oedolion yn y gymuned a rôl ysgolion mewn nodi pobl sydd angen cymorth yn y gymuned. Rydym yn ystyried bod y term 'presgripsiynu cymdeithasol' yn un defnyddiol ar y cyfan gan ei fod yn cyfleu'r bwriad i helpu gwella sefyllfa unigolyn. Rydym yn cefnogi'r farn y bydd y pwys mwyaf yn cael ei roi i ddatblygu dealltwriaeth glir o'r cysyniad a'r derminoleg sy'n amgylchynu 'presgripsiynu cymdeithasol' i sicrhau ansawdd mewn cyflwyno ac ategu dealltwriaeth y cyhoedd.

Credwn y bydd angen i'r llywodraeth a chyrrff perthnasol gynnal ymgyrch ledled y wlad i hysbysu pobl ynglŷn â beth yw 'presgripsiynu cymdeithasol' a'r hyn y gallai pobl ei ddisgwyl yn rhesymol gan gynllun o'r fath i sicrhau dealltwriaeth genedlaethol o 'bresgripsiynu cymdeithasol'. Rydym yn awgrymu y bydd angen i'r llywodraeth a chyrrff perthnasol ddefnyddio amrywiaeth o ffyrdd i hysbysu pobl, gan gynnwys defnyddio platfformau digidol a chyfryngau cymdeithasol. Rydym yn awgrymu y dylid creu deunyddiau i amlygu'r cynllun yn Gymraeg ac yn Saesneg o'r dechrau, ac ystyried y ffyrdd gorau o ddarparu gwybodaeth a chymorth i grwpiau bregus.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad

|    |  |
|----|--|
| 1a | Ydych chi'n meddwl bod y model yn cyfleu gweledigaeth briodol o bresgripsiynu cenedlaethol yng Nghymru?  |
|    | Ydyn<br>Credwn fod y weledigaeth o ran presgripsiynu cymdeithasol a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori yn un priodol, ar y cyfan.  |
| 1b | Os na, pam ddim? Oes yna unrhyw beth ar goll / ddim yn briodol?  |
|    | Yn y ddogfen hon, er bod cyfeiriad yn cael ei wneud at ddsbarthiadau a allai helpu pobl, er enghraifft dosbarthiadau gweithgareddau corfforol neu ddsbarthiadau therapi celf, prin yw'r cyfeiriad at allu addysg i rymuso. Mae hyn yn cynnwys gwaith ôl-16 dysgu oedolion yn y gymuned a rôl ysgolion mewn nodi pobl sydd angen cymorth yn y gymuned, yn ogystal ag yn achos darparu cymorth mewn dysgu oedolion yn y gymuned. |
| 2a | Beth yw eich barn am yr iaith / y derminoleg a ddefnyddir yn y model a'r naratif gefnogol? Gallai hyn gynnwys yr iaith a'r derminoleg a ddefnyddir yn Saesneg, ac yn Gymraeg, os yw'n briodol.   |
|    | At ei gilydd, credwn fod yr iaith a'r derminoleg a ddefnyddir yn y model a'r naratif gefnogol yn briodol yn y ddwy iaith.  |

|    |  |
|----|--|
| 2b | Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar iaith / derminoleg amgen? Gallai hyn gynnwys yr iaith a'r derminoleg a ddefnyddir yn Saesneg, ac yn Gymraeg, os yw'n briodol.  |
|    | Er y gallai'r ymadrodd 'presgripsiynu cymdeithasol' fod yn ymadrodd ensyniadol, ym marn rhai pobl, mae'n cyfleu'r syniad ei fod yn rhywbeth bwriadol sydd i fod i helpu. Byddem yn awgrymu bod y syniad o beidio â chymryd meddyginiaeth, ond dod o hyd i ffyrdd eraill o helpu mynd i'r afael ag anghenion penodol, yn fuddiol i lawer o bobl. Mae'r ymadrodd yn rhoi lefel o statws i'r gweithgaredd.  |
| 3  | Sut ydym ni, ar lefel genedlaethol, yn datblygu dealltwriaeth ar y cyd o'r iaith / y derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio presgripsiynu cymdeithasol ar gyfer pobl broffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd yn yr un modd? Gallai hyn gynnwys yr iaith a'r derminoleg a ddefnyddir yn Saesneg, ac yn Gymraeg, os yw'n briodol.  |
|    | Rydym yn awgrymu y gellid cyflawni hyn trwy sefydlu gweithgor i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o bresgripsiynu cymdeithasol, a therminoleg. Yr ail gam fyddai arbrofi â'r syniadau ategol gyda grwpiau ffocws wedi eu tynnu o wahanol grwpiau proffesiynol a'r cyhoedd i fireinio'r syniadau cyn lansio ymgyrch i hysbysebu'r cysyniad a'r gwasanaeth trwy amrywiaeth o gyfryngau.   |
| 4a | Pa gamau allem ni eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu pobl broffesiynol (o sefydliadau gofal iechyd, sefydliadau statudol a sefydliadau'r trydydd sector) i wybod am ac adnabod gwerth y cysyniad, a bod yn hyderus o ran cyfeirio pobl at wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol?   |
|    | Gellid gwahodd hyrwyddwyr o'r gwahanol feysydd gweithgaredd sy'n gallu trafod syniadau a champau gweithredu y gallai eu maes eu cymryd i gefnogi'r fenter presgripsiynu cymdeithasol. Rydym yn awgrymu y dylid defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gyflwyno gwaith o'r fath, er enghraifft trwy gyflwyniadau wyneb yn wyneb, cyflwyniadau ar-lein a modelau digidol y gall unigolion a grwpiau weithio trwyddynt ar adeg sy'n briodol iddyn nhw.                 |
| 4b | Yn achos hunanatgyfeiriadau, pa gamau allem ni eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu aelodau o'r cyhoedd i wybod am ac adnabod gwerth y cysyniad, a bod yn hyderus o ran cyfeirio pobl at wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol?  |
|    | Rydym yn awgrymu y byddai angen ymgyrch eang a chynaledig ar hyn trwy ystod o gyfryngau a gwahanol genres cyflwyno i sicrhau bod cysyniad presgripsiynu cymdeithasol yn cael ei ddeall gan bobl broffesiynol a'r cyhoedd yn yr un modd. Gellir cefnogi hyn orau trwy ystod eang o astudiaethau achos sy'n dangos sut mae presgripsiynu cymdeithasol wedi helpu pobl o gefndiroedd amrywiol mewn cymdeithas Gymreig i ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau. |
| 4c | Yn achos atgyfeiriadau targedig, pa gamau allem ni eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu sefydliadau i nodi poblogaethau / grwpiau o bobl a allai elwa ar gysylltu â gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol?  |
|    | Rydym yn awgrymu y dylid darparu gwybodaeth ar gyfer pobl broffesiynol sy'n cyfleu portread o bobl ac amodau a allai elwa ar bresgripsiynu cymdeithasol. Dylid llunio'r deunyddiau yn ofalus er mwyn peidio â datblygu meddwl yn   |

|    |   |
|----|---|
|    | ystrydebol am bobl – efallai bod angen gwahanol gymorth ar wahanol adegau yn eu bywydau ar bobl o bob math o safleoedd cymdeithasol. Er enghraifft, bydd mam sydd wedi'i hynysu â'i phlentyn cyntaf yn profi gwahanol fath o unigrwydd i rywun oeddrannus, y mae llawer o'i ffrindiau wedi marw.  |
| 5  | Pa gamau allem ni eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi sefydliadau / grwpiau sy'n cynnig cymorth yn y gymuned i ymgysylltu â gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol?  |
|    | Credwn y bydd yn bwysig ei gwneud yn glir: <ul style="list-style-type: none"> <li>• beth yw presgripsiynu cymdeithasol</li> <li>• sut gall gwahanol sefydliadau gyfrannu at y cysyniad hwn</li> <li>• pa arbenigedd ac adnoddau fydd angen i'r sefydliad eu cyfrannu</li> <li>• pa gyllid sydd ar gael i gefnogi eu cyfranogiad yn y fenter hon</li> <li>• sut maen nhw'n darganfod pa wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol sydd ar gael iddynt yn lleol ac yn genedlaethol, a sut i'w rhoi mewn cysylltiad â nhw.</li> </ul> |
| 6a | Pa gamau allem ni eu cymryd ar lefel genedlaethol i leihau atgyfeiriadau amhriodol i wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol i'r eithaf?   |
|    | Rydym yn awgrymu bod angen dealltwriaeth glir a datblygedig o'r hyn mae presgripsiynu cymdeithasol yn gallu, a ddim yn gallu, ei wneud ar gyfer hyn, pwyntiau cyfeirio fel bod y rhai sy'n cynnig yn gallu cymryd cyngor yn ôl yr angen cyn iddynt gysylltu â sefydliadau eraill i bresgripsiynu yn gymdeithasol, a datblygu dealltwriaeth glir o'r unigolyn maent yn bwriadu ei gyfeirio, a'i anghenion.   |
| 6b | Pa gamau allem ni eu cymryd ar lefel genedlaethol i leihau i'r eithaf atgyfeiriadau amhriodol gan wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol i gymorth yn y gymuned?  |
|    | Rydym yn awgrymu canllawiau clir ynglŷn â phwy sydd efallai, ac efallai ddim, yn addas ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol, a phwyntiau cyfeirio clir ynghylch ble gall pobl broffesiynol ofyn am gyngor, os oes angen.   |
| 7  | Pa gamau y gellid eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi arweinyddiaeth gref a threfniadau llywodraethu effeithiol?  |
|    | Rydym yn awgrymu y dylid sefydlu bwrdd cenedlaethol, gan ddenu aelodaeth o amrywiaeth o arbenigedd gwahanol a phriodol ledled Cymru. I ategu hyn, byddai angen dod o hyd i gorff addas i fonitro'r system presgripsiynu cenedlaethol yn rheolaidd i ddarparu darlun cenedlaethol o'r cysyniad a'i gymhwyso ledled Cymru. Gellir cefnogi'r gwaith hwn â phrosiectau ymchwil weithredu hefyd, yn canolbwyntio ar agweddau penodol ar y gwaith.  |
| 8  | Pa gamau allem ni eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi'r broses gomisiynu a helpu ennyn diddordeb y cyhoedd mewn datblygu model ar lefel leol sy'n diwallu anghenion eu cymuned?   |
|    | Rydym yn awgrymu bod personél ar lefel genedlaethol yn darparu arweiniad a gwybodaeth glir y gellir eu dosbarthu trwy ystod o ffyrdd i ddarparu ddarparwyr allweddol i ddechrau er mwyn dechrau datblygu'r model ar lefel llawr gwlad. Er   |

|     |  |
|-----|--|
|     | <p>enghraifft, ar gyfer oedolion ôl-16 o ran addysg, gallai'r partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned sefydledig sy'n gweithredu ar lefel awdurdod lleol a rhanbarthol yn eu hardaloedd priodol chwarae rôl arwyddocaol, fel y gwnaethant yn ystod y pandemig. Yn ystod y pandemig, buon nhw nid yn unig yn cynorthwyo dysgwyr â chyrsgiau parhaus, ond hefyd â chymorth a chefnogaeth, er enghraifft dosbarthu bwyd, darparu technoleg, cyfeirio at gyrff priodol eraill am bethau fel cymorth ariannol a helpu goresgyn unigrywdd.</p>  |
| 9a  | <p>A yw'r cyfeiriaduron a'r ffynonellau gwybodaeth ar-lein presennol yn rhoi i chi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch (mewn fformat hygyrch) i wneud penderfyniadau ar briodoldeb ac argaeledd cymorth yn y gymuned?</p>   |
|     | <p>Ni allwn roi sylwadau ar yr agwedd hon ar bresgripsiynu cymdeithasol am nad oes gennym rôl mewn presgripsiynu cymdeithasol.</p>   |
| 9b  | <p>A oes yna gyfeiriaduron / ffynonellau gwybodaeth ar-lein eraill yr ydych yn eu defnyddio?</p>   |
|     | <p><i>Ddim yn berthnasol</i></p>   |
| 9c  | <p>Beth yw'r nodweddion allweddol rydych chi'n meddwl y dylai cyfeiriaduron ar-lein eu darparu i helpu pobl i fanteisio ar gymorth yn y gymuned?</p>   |
|     | <p>Rydym yn awgrymu mai un o'r nodweddion allweddol ar gyfer hygyrchedd yw eu bod yn hygyrch trwy un porth, boed hynny'n gopi caled neu'n gopi digidol. Y ffordd fwyaf effeithlon o ddarparu cyfeiriaduron fyddai ar-lein. Efallai mai dolen at gyfeiriadur darparwr ei hun sydd orau ar gyfer hyn fel bod y baich ar gyfer diweddarau gwybodaeth dim ond er mwyn darparu'r cyfeiriad digidol diweddaraf ar gyfer y porth, a bydd y cynnwys yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd gan y darparwr. Gallai fod yn fuddiol pe bai darparwyr yn cytuno ar osod tudalen mewn fformat cyffredin i'w gwneud yn haws ac yn gyflymach i bobl ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Rydym yn awgrymu y dylid creu'r wybodaeth hon yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd, ac ieithoedd cymunedol eraill sy'n gyffredin yng Nghymru.</p> |
| 10a | <p>Pa gamau allem ni eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu mynd i'r afael â'r rhwystrau rhag cael mynediad?</p>  |
|     | <p>Rydym yn awgrymu y dylid llunio'r wybodaeth mewn ffurfiau amrywiol, fel bod pobl â namau ar y golwg a'r clyw, a phroblemau symudedd, er enghraifft, yn gallu manteisio arnynt. Dylid ymgynghori â sefydliadau sydd ag arbenigedd yn y meysydd hyn i helpu darparu'r gwasanaethau hyn.</p>   |
| 10b | <p>Pa gamau allem ni eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu mynd i'r afael â'r rhwystrau rhag cael mynediad gan grwpiau mwy bregus a than anfantais?</p>  |
|     | <p>Rydym yn awgrymu y dylai sefydliadau sy'n gysylltiedig â phresgripsiynu cymdeithasol, naill ai presgripsiynu neu ddarparu gweithgareddau presgripsiynu cymdeithasol, hyfforddi mentoriaid sy'n gallu cynorthwyo pobl ag anawsterau i ddefnyddio'r gwasanaeth pe bai angen.</p>  |
| 11a | <p>A ddylai'r fframwaith cenedlaethol gynnwys set o safonau cenedlaethol ar gyfer cymorth cymunedol i helpu lliniaru pryderon ynghylch diogelu?</p> <p>Dylai. Credwn fod hwn yn ofyniad hanfodol, yn enwedig o ran grwpiau bregus.</p>   |

|     |  |
|-----|--|
| 11b | Os dylai, beth yw'r pethau allweddol y dylai'r safonau cenedlaethol ar gyfer cymorth cymunedol eu cwmpasu?   |
|     | Rydym yn awgrymu y dylai'r safonau lefel genedlaethol ar gyfer cymorth cymunedol ymdrin â'r agweddau allweddol y gallai presgripsiynu cymdeithasol eu cwmpasu ac ymddygiadau staff o ran nodi a chefnogi pobl sy'n dymuno / angen manteisio ar bresgripsiynu cymdeithasol. Dylent gynnwys safonau yn gysylltiedig â sicrhau darpariaeth deg yn ogystal â hygyrchedd. Dylent gynnwys cyfeiriad at bwy ddylai oruchwylio cymhwyso'r safonau mewn sefydliad, a bod yn atebol am hyfforddiant staff.   |
| 11c | Os na, neu ddim yn siŵr, beth yw eich prif bryderon ynglŷn â chyflwyno safonau cenedlaethol ar gyfer cymorth yn y gymuned, a sut gellir mynd i'r afael â'r rhain?  |
|     | Ddim yn berthnasol   |
| 12  | Pa gamau allem ni eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu goresgyn rhwystrau rhag defnyddio technoleg ddigidol ar gyfer cymorth yn y gymuned?  |
|     | Rydym yn awgrymu y gellir creu porth digidol ar lefel genedlaethol y gellid rhoi'r safonau cenedlaethol a gwybodaeth a deunyddiau trosfwaol eraill arno. Byddai angen cynnal a chadw hyn yn ganolog. Yn ychwanegol, gallai fod bylchau a fyddai'n dal cyfeiriadau gwefannau sefydliadau priodol, a byddai'r gwefannau hyn yn cael eu diweddar'u rheolaidd gan y sefydliad ei hun. Yn yr un modd, gallai fod gofodau ar gyfer hyfforddiant proffesiynol, gan gynnwys hyfforddiant yn y defnydd gorau o dechnoleg ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol, yn ogystal â meysydd y gall darparwyr rannu syniadau arnynt. Byddem yn rhagweld y gellir datblygu porth cenedlaethol o'r fath dros gyfnod.  |
| 13  | Pa gamau allem ni eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi gwaith partneriaeth effeithiol i sicrhau trefniadau cyllido hirdymor?  |
|     | Byddem yn awgrymu y dylai'r llywodraeth archwilio pa sefydliadau sydd eisoes ar waith y gallai sianelu a sicrhau atebolrwydd cyllid trwyddynt. Er enghraifft, mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned sy'n gwasanaethu ardaloedd awdurdodau lleol ac ardaloedd rhanbarthol yn bodoli eisoes. Caiff y partneriaethau hyn eu creu yn wahanol ym mhob ardal, ac maent yn cynnwys partneriaid awdurdod lleol, addysg bellach, y sector gwirfoddol a'r trydydd sector, gyda chyllid yn cael ei sianelu a'i gyfrif amdano trwy awdurdodau lleol fel deiliad y gronfa. Mae'r partneriaethau hyn yn entrepreneuriaidd hefyd – maent yn ceisio gwneud y defnydd gorau o bartneriaeth trwy leihau dyblygu a denu cyllid ychwanegol gan gyrrff amrywiol sy'n dyfarnu grantiau. Maent yn cyfeirio dysgwyr o un darparwr at un arall, ble bynnag y gellir gwasanaethu'r dysgwr orau i ddiwallu ei anghenion. |
| 14  | Pa gamau allem ni eu cymryd ar lefel genedlaethol i liniaru effaith y galw cynyddol ar asedau cymuned leol a gweithgareddau lles?  |
|     | Fel yr uchod.  |
| 15  | Yn eich barn chi, beth yw'r pethau craidd y mae angen i ni eu mesur i ddangos effaith presgripsiynu cymdeithasol?  |

|     |  |
|-----|--|
|     | <p>Oherwydd ei natur, mae presgripsiynu cymdeithasol yn debygol o gefnogi anghenion unigol iawn. Ar lefel ymarferol, mae angen atebolrwydd fod unrhyw gyllid a roddir gan y llywodraeth yn cael ei ddefnyddio'n briodol. At ei gilydd, dylai'r gweithgareddau y caiff yr unigolyn ei gyfeirio atynt gael yr effaith y mae'r unigolyn wedi'i nodi drosto'i hun – mewn llawer o achosion, deilliannau meddal fyddai hyn, sy'n anodd eu mesur heblaw trwy gofnodion cyflawniad personol wedi'u mesur yn erbyn targedau'r unigolyn ei hun, a/neu drwy astudiaethau achos sy'n cofnodi taith yr unigolyn. Ar lefel fwy strategol, gallai'r llywodraeth edrych ar ystadegau o'r fath sy'n pwyntio at b'un a fu gostyngiad mewn atgyfeiriadau i'r ysbyty, er nad yw hyn efallai'n darparu'r union wybodaeth, oherwydd gallai fod llawer o achosion am hyn. Yn yr achos hwn, efallai byddai'r llywodraeth yn dymuno comisiynu ymchwil weithredu sy'n canolbwyntio'n glir ar agweddau ar y rhaglen a'i chyflawniadau.</p> |
| 16a | <p>Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth ymchwil neu werthuso yr hoffech ei rhannu â ni?</p>  |
|     | <p>Wrth arolygu partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned, mae Estyn yn adrodd ar sut mae darparwyr yn trefnu darpariaeth trwy eu cyrsiau ar gyfer lles, a sut maen nhw'n cefnogi dysgwyr ar eu teithiau. Rydym yn cyhoeddi astudiaethau achos ar ein gwefan hefyd. Rydym yn atodi'r hyperddolen at y ddau adroddiad diweddaraf o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned fel enghraifft o hyn.</p> <p><a href="#">Adroddiad arolygiad – Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Benfro – Mawrth 2022</a></p> <p><a href="#">Adroddiad arolygiad – Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Wrecsam a Sir y Fflint – Mai 2022</a></p>   |
| 16b | <p>Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar sut y gellir ac y dylid gwerthuso gweithredu'r fframwaith cenedlaethol yng Nghymru?</p>   |
|     | <p>Gweler awgrymiadau, fel y nodir o dan gwestiwn 16a.</p>   |
| 17a | <p>Beth yw'r wybodaeth a'r medrau allweddol y dylai'r fframwaith cymhwysedd arfaethedig eu cwmpasu?</p>  |
|     | <p>Rydym yn awgrymu y dylai'r wybodaeth a'r medrau yn y fframwaith cymhwysedd arfaethedig, ymhlith pethau eraill, gynnwys meysydd fel cwnsela, gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth sy'n cefnogi lles pennaf unigolyn, diogelu data a dealltwriaeth dda o ddiogelu.</p>   |
| 17b | <p>Sut orau y gall y fframwaith cymhwysedd arfaethedig ategu safonau proffesiynol presennol?</p>   |
|     | <p>Gall y fframwaith cymhwysedd ategu safonau proffesiynol orau trwy roi ystyriaeth dda i ddeddfwriaeth bresennol, yn enwedig o ran diogelu, yn ogystal â chael ffocws clir ar weithio ag uniondeb a chyflenwi gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n destun hunanwerthuso ac adolygu rheolaidd.</p>  |
| 18  | <p>A oes yna unrhyw fanteision ac/neu anfanteision addysg a hyfforddiant i ategu'r fframwaith cymhwysedd, sydd wedi'u hachredu'n academaidd?</p>   |

|     |  |
|-----|--|
|     | Byddem yn awgrymu y dylid datblygu economi gymysg o hyfforddiant i gefnogi'r fframwaith cymhwysedd a fyddai'n diwallu anghenion y rhai sy'n cyflwyno'r ddarpariaeth presgripsiynu cymdeithasol. Efallai bod pobl a fyddai'n hoffi datblygu eu gyrfa i gynnwys presgripsiynu cymdeithasol, ac felly byddai'n briodol darparu economi gymysg lle mae'r bobl hynny sy'n dymuno cael cymwysterau academaidd yn gallu gwneud hynny.   |
| 19  | Pa gamau eraill allem ni eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi datblygiad y gweithlu?  |
|     | Rydym yn awgrymu, er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb neges, y gallai fod yn briodol hyfforddi carfan o bobl ledled Cymru i hyrwyddo presgripsiynu cymdeithasol, a nhw fydd y rhai allweddol yn eu hardal leol fydd yn helpu a chefnogi sefydliadau â'r ddarpariaeth angenrheidiol i fod ynghlwm.   |
| 20a | Beth yw eich profiadau presennol o ddefnyddio technoleg ddigidol yn y meysydd presgripsiynu cymdeithasol canlynol? <ul style="list-style-type: none"> <li>• Proses atgyfeirio</li> <li>• Proses asesu</li> <li>• Manteisio ar gymorth yn y gymuned</li> <li>• Cyflenwi cymorth yn y gymuned</li> <li>• Rheoli gwybodaeth ac adrodd am allbynnau / deilliannau</li> </ul>   |
|     | Nid yw Estyn yn presgripsiynu yn gymdeithasol nac yn arolygu presgripsiynu cymdeithasol ar hyn o bryd.   |
| 20b | Sut gallai defnyddio technoleg ddigidol wella'r drefn o ran cyflenwi presgripsiynu cymdeithasol yn y meysydd canlynol? <ul style="list-style-type: none"> <li>• Proses atgyfeirio</li> <li>• Proses asesu</li> <li>• Manteisio ar gymorth yn y gymuned</li> <li>• Cyflenwi cymorth yn y gymuned</li> <li>• Rheoli gwybodaeth ac adrodd am allbynnau / deilliannau</li> </ul>   |
|     | Nid yw Estyn yn presgripsiynu yn gymdeithasol nac yn arolygu presgripsiynu cymdeithasol ar hyn o bryd.   |
| 21a | Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai cyflwyno fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau ar y Gymraeg? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?  |
|     | Rydym yn awgrymu y dylid datblygu'r rhaglen a'r deunyddiau yn ddwyieithog o'r cychwyn yn unol â statws y ddwy iaith yng Nghymru. Os yw cleientiaid presgripsiynu cymdeithasol yn siaradwyr iaith gyntaf, mae'n hanfodol, yn ein barn ni, fod cleientiaid yn defnyddio'r ddarpariaeth yn eu hiaith gyntaf er mwyn iddynt fod yn gyfforddus â'r ddarpariaeth. Felly, er mwyn i'r rhaglen fod yn llwyddiannus, bydd angen ystyried sut gellir cynllunio ar gyfer hyn, a'i gyflawni, |



|     |  |
|-----|--|
|     | o'r cychwyn.   |
| 21b | Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y fframwaith cenedlaethol arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.  |
|     | Rydym yn awgrymu y dylai'r rhaglen gydnabod pwysigrwydd seicolegol gallu cael cymorth yn eich iaith eich hun, yn enwedig o ran sicrhau rhuglder mynegiant wrth fynegi pryderon a phroblemau. Felly, mae'n bwysig fod y rhaglen a'r ddarpariaeth yn cael eu datblygu'n ddwyieithog o'r dechrau a bod yna ymwybyddiaeth am sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael ymhlith presgripsiynu cymdeithasol a staff cyflenwi, fel bod y rhai sy'n siaradwyr Cymraeg yn cael mynediad cyfartal, ac nad ydynt dan anfantais.   |
| 22  | Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt:   |
|     | Er na sonnir am ysgolion yn y ddogfen ymgynghori fel corff cyfeirio, mae ganddynt rôl bwysig mewn cyfeirio at wybodaeth. Fel arfer, mae ysgolion yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o deuluoedd y plant sy'n eu mynychu. Ceir yr ysgolion hynny sydd hefyd yn darparu cyrsiau dysgu i deuluoedd ar gyfer rhieni, er mwyn galluogi rhieni i ddeall methodolegau ysgolion a gallu cefnogi dysgu eu disgyblion. Byddai cyfeirio at ble y gall teuluoedd a rhanddeiliaid eraill fanteisio ar gymorth ehangach yn cryfhau'r strategaeth gyfathrebu o amgylch y polisi hwn. |